COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD DRWY DDULL HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MAWRTH 28 IONAWR 2025 AM 10:00

Yn bresennol

CynghoryddF D Bletsoe - Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| JPD Blundell | RM Gravell | GH Haines |

Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| HJ David | S J Griffiths | M L Hughes | T Thomas |
| A Ulberini-Williams | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RL Penhale-Thomas and E D Winstanley

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet Cyllid a Pherfformiad |
| Cynghorydd Martyn Jones | Aelod Cabinet Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod Cabinet Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Melanie Evans | Aelod Cabinet Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| | |
| Mark Shepherd | Y Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Martin Morgans | Pennaeth Partneriaethau a Thai |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |

Datgan Buddiant

Cynghorydd Amanda Williams - Personol - Eitem 3 - Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Gyfun Brynteg a Llywodraethwr y Cyngor Cymuned yn Ysgol Gynradd Coety.
Cynghorydd Alex Ulberini-Williams - Personol – Eitem 3 - Ei ŵr yn gweithio fel athro cerddoriaeth mewn awdurdod lleol arall.
Cynghorydd Tim Thomas - Personol - Eitem 3 - Yn rhinwedd ei swydd, mae wedi cysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet a Llywodraeth Cymru ynghylch cynyddu'r cyflenwad tai a lleihau digartrefedd, ac mae ei wraig yn gweithio fel athrawes mathemateg a cherddoriaeth mewn awdurdod lleol arall.
Cynghorydd Martin Hughes - Personol - Eitem 3 - Mae ei ferch yn bennaeth cerddoriaeth mewn awdurdod lleol cyfagos a'i wraig yn diwtor cerddoriaeth preifat, y ddwy ohonynt wedi elwa ar y gwasanaeth cerdd yn y gorffennol.

**144. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 hyd 2028-29 a'r Broses ar gyfer Ymgynghori ar D**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl o’r adroddiad a’i atodiadau gydag Aelodau’r Cabinet a Swyddogion, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno’r Argymhellion yn Atodiadau A a B i’r Cabinet ar 4 Chwefror 2025 fel rhan o’r broses ymgynghori ar y gyllideb, yn amodol ar yr ychwanegiadau a’r diwygiadau a ganlyn:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Trafododd y Pwyllgor y swm aruthrol o sylwadau yr oeddent wedi'u cael gan benaethiaid, rhieni a dysgwyr ynghylch effaith bwerus Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr ar fywydau a llesiant pawb sy’n ei ddefnyddio, gan amlygu ei bwysigrwydd hefyd i'r dysgwyr hynny sy’n cael y byd academaidd neu'r byd chwaraeon yn anodd.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor **yn gryf** y dylid cadw Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr fel gwasanaeth â |

| | |
|---|---|
| | chymhorthdal llawn.<br><br>Fodd bynnag, gan gydnabod ei fod yn achosi pwysau sylweddol ar y gyllideb, roedd y Pwyllgor o'r farn fod y Gwasanaeth yn creu cymaint o werth fel ei fod yn **argymell** y dylid gohirio cynnig lleihau cyllideb EEYYP 12, o leiaf, nes archwilio'r holl fodelau darparu eraill posibl i sicrhau bod modd i'r Gwasanaeth barhau yn y tymor hir.<br><br>Ymhellach i hyn, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai unrhyw fodel darparu arall, p'un a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid eraill neu fodelau cyfraniad rhieni neu beidio, barhau i ddarparu'r Gwasanaeth am ddim, o leiaf i ddysgwyr o deuluoedd incwm isel.<br><br>2. <u>Gwasanaethau Cwnsela</u><br><br>Yn ogystal â'r sylwadau a wnaed gan SOSC 1 ynghylch Cynnig Lleihau Cyllideb EEYYP 3: *y dylid archwilio cyfleoedd ymhellach i ganfod modelau darparu eraill, fel partneriaethau dielw neu fasnachol, er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaethau pwysig hyn,* pwysleisiodd COSC bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid ac **argymhellodd** y dylai'r Awdurdod gydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi cymorth er budd iechyd meddwl a lesiant plant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol.<br><br>3. <u>EEYYP a Phwysau ar Gyllidebau Ysgolion</u><br><br>Yn dilyn cefnogaeth SOSC 1 o blaid y cynigion yn gysylltiedig â phwysau cyllidebol, roedd y Pwyllgor yn dymuno cefnogi cynyddu'r gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn benodol. Fodd bynnag, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid taro cydbwysedd gofalus rhwng y cynnig i gynyddu'r gyllideb i ddarparu cymorth ychwanegol i rai ag ADY a'r galw a'r effaith y byddai cynigion i leihau cyllidebau yn gysylltiedig ag ADY yn ei chael ar staff a chefnogaeth i ddysgwyr.<br><br>4. <u>Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion – SCH 1</u><br><br>Trafododd yr Aelodau sylwadau a dderbyniwyd gan benaethiaid ynghylch yr effaith andwyol y byddai'r toriad pellach o 1% yn ei chael ar eu gallu i ddarparu ystod eang o wasanaethau, ac ar eu cyllidebau a oedd eisoes mewn diffyg sylweddol, gan gynnwys yr effaith sylweddol ar staffio a llesiant staff, y posibilrwydd o ddosbarthiadau mwy, culhau'r cwricwlwm a'r effaith bosibl ar ddarpariaethau ychwanegol fel gweithgareddau allgwricwlaidd. **Argymhellodd** y Pwyllgor felly fod COSC yn cefnogi'n llwyr argymhelliad SOSC 1, sef *y dylid gofyn i'r Cabinet wneud popeth o fewn ei allu i gael gwared â'r arbediad o 1% a gynigiwyd i'r gyllideb ysgolion,* ac y dylai'r Cabinet ailystyried y gostyngiad sylweddol hwn a gynigiwyd i'r gyllideb am y rhesymau uchod. |

| | |
|---|---|
| | 5. Arian grant<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o werth y cyllid grant y gallai'r Cyngor ddisgwyl ei gael gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn 2025/26, gan gynnwys yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ei dderbyn ac a oedd hyn yn cynrychioli cynnydd neu ostyngiad o gymharu â blynyddoedd cynt.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, er bod rhai ffigurau pennawd wedi'u derbyn ar sail Cymru gyfan, nad oedd dyraniad Pen-y-bont ar Ogwr yn hysbys hyd yma. Os bydd yr wybodaeth hon ar gael cyn pennu'r gyllideb, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Cabinet ystyried hyn yn rhan o'r amlinelliad ariannol llawn yn ystod proses pennu'r gyllideb.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>6. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr anghysondeb canfyddedig rhwng Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo buddsoddiad o 4% mewn addysg a Phen-y-bont ar Ogwr yn cynnig toriad o 1% i gyllidebau ysgolion. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Ben-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru yn cyfateb i tua £10.8m. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o'r llythyr gan Ysgrifennydd Addysg y Cabinet a roddai ddadansoddiad o'r dyraniad hwn yr oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc wedi cyfeirio ato.<br><br>7. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion ar y gofrestr ar ysgolion, a **gofynnodd** am niferoedd y disgyblion ar y gofrestr yn y blynyddoedd cynt ac amcanestyniad o'r niferoedd yn y dyfodol, gan gynnwys Nifer y Disgyblion y gellir eu Derbyn ym mhob ysgol.<br><br>8. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ymateb ysgrifenedig yn rhoi amcangyfrif o werth y refeniw a fyddai'n cael ei golli, ym Maes Parcio Rhiw, yn sgil cadw giât y maes parcio i fyny drwy'r dydd.<br><br>9. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod trefn codi tâl y Cyngor am barcio ceir, gan gynnwys y cynigion parcio am ddim, yn cael ei hadolygu. **Gofynnodd** y Pwyllgor a allai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ystyried gofyn am adroddiad yn manylu ar ganlyniad yr ymarfer y cyfeiriwyd ato uchod, ac i'r adroddiad hwnnw ddangos y gwahaniaeth mewn refeniw rhwng y cyfnod parcio am ddim a model codi tâl llawn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Ionawr 2025 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

## 145. Monitro Cyllideb 2024-25 - Rhagolygon Refeniw Chwarter 3

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a chynnal trafodaeth fanwl ag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau a ganlyn am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>10. Wrth drafod gorwariant sylweddol mewn rhai gwasanaethau, mynegodd y Pwyllgor bryder fod y tanwariant cyffredinol a oedd wedi'i ragamcanu gan y Cyngor yn cuddio gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd, ac **argymhellodd** y dylai'r Awdurdod barhau â'r ymgyrch i geisio lleihau ac ymdrin â'r achosion hyn o orwario.<br><br>11. Mynegodd y Pwyllgor bryder eu bod yn dal i ddisgwyl am Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ynghylch trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol, ac mai effaith hynny oedd gorwariant cylchol sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaeth. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod angen trawsnewid y gwasanaeth a bod angen gweithio gyda'r cyhoedd a'u haddysgu ynghylch y rhwydwaith bysus cyhoeddus. Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd, y byddai adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau rhwydwaith bysus a masnachfreinio yn dechrau yng Ngogledd Cymru, felly na fyddai adolygiad o Ben-y-bont ar Ogwr yn cael ei gynnal am o leiaf ddwy flynedd.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>12. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y cynnydd sylweddol yn y galw ymhlith dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a oedd yn gyrru'r gorwariant yn y maes hwn. , Gofynnwyd hefyd a oedd dealltwriaeth ddigonol o'r rhesymau dros y cynnydd yn y galw am wasanaethau ADY, a'r galw tebygol a oedd yn cael ei ragweld.<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o adroddiad adolygiad Estyn yr oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc wedi cyfeirio ato ynghylch Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a oedd yn ystyried rhai meysydd anghenion dysgu, a'r gefnogaeth yr oedd ar ddysgwyr ei hangen. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb defnyddiol o themâu o sawl ysgol ledled Cymru.<br><br>13. Trafododd y Pwyllgor broblemau a etifeddwyd yn sgil y pandemig a oedd yn amharu ar ymddygiad disgyblion. Roedd hyn yn arwain at gynnydd mewn gwaharddiadau ac at y cynnydd sylweddol yn y galw am ddarpariaeth ADY. Mynegwyd pryder y gallai mwy o ffactorau na'r pandemig yn unig fod wrth wraidd y cynnydd yn y galw, a gofynnwyd a oedd angen gwneud gwaith pellach i gael dealltwriaeth lawn o'r |

| | |
|---|---|
| | rhesymau a oedd yn gyrru'r cynnydd yn y galw a'r gorwariant o fewn gwasanaethau ADY.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod arbenigwyr addysg yn Llywodraeth Cymru yn gwneud darn manwl o waith yn edrych ar y rhesymau wrth wraidd y galw ychwanegol, a **gofynnwyd** a allai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ystyried gwneud cais am yr adroddiad a fanylai ar ganlyniad yr ymarfer uchod, pan fyddai ar gael, neu ei gynnwys yn yr adroddiad ar Ymddygiad a oedd wedi'i gynnwys ar amserlen y Pwyllgor hwnnw, fel bo'n briodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Ionawr 2025 |

**146. Strategaeth Gyfalaf 2025-26**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a chynnal trafodaeth ag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion y Pwyllgor, nodwyd drafft y Strategaeth Gyfalaf 2025-26 i 2034-35, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus 2025-26 i 2034-35 yn Atodiad A. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Ionawr 2025 |

**147. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Ionawr 2025 |

I weld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben ar 13:26.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**